OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2021 Rhif 340 (Cy. 94)

# TAI, CYMRU

## Gorchymyn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (Estyn y Cyfnod Adolygu) (Cymru) (Coronafeirws) 2021

| | |
|---|---|
| *Gwnaed - - - -* | *17 Mawrth 2021* |
| *Yn dod i rym - -* | *18 Mawrth 2021* |

Mae Gweinidogion Cymru yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn drwy arfer y pŵer a roddir iddynt gan adran 101(4) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014(**1**).

Yn unol ag adran 142(3)(c) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Gorchymyn hwn gerbron Senedd Cymru ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad(**2**).

**Enwi a chychwyn**

**1.**—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn yr Asesiad o Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr (Estyn y Cyfnod Adolygu) (Cymru) (Coronafeirws) 2021.

(2) Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 18 Mawrth 2021.

**Diwygio adran 101(3) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014**

**2.**—(1) Mae adran 101(3) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn lle paragraff (b) rhodder—

"(b) y cyfnod o 6 mlynedd sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y daeth y cyfnod ym mharagraff (a) i ben, a phob cyfnod dilynol o 5 mlynedd sy'n dechrau â thrannoeth y diwrnod y daeth y cyfnod adolygu blaenorol i ben."

*Jane Hutt*
Y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip o dan awdurdod Gweinidogion Cymru

17 Mawrth 2021

(**1**) 2014 dccc 7.
(**2**) Mae'r cyfeiriad yn adran 142(3) at Gynulliad Cenedlaethol Cymru bellach yn cael effaith fel cyfeiriad at Senedd Cymru, yn rhinwedd adran 150A(2) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32).

## NODYN ESBONIADOL

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Gorchymyn)*

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio adran 101(3)(b) o Ddeddf Tai (Cymru) 2014 ("y Ddeddf").

Mae adran 101 o'r Ddeddf yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynnal asesiad gan awdurdod tai lleol o anghenion llety Sipsiwn a Theithwyr sy'n preswylio yn ei ardal neu sy'n cyrchu yno. Mae adran 101(3) o'r Ddeddf yn nodi ystyr y "cyfnod adolygu", sef y cyfnod y mae rhaid i'r asesiad hwn gael ei gynnal ynddo.

Y cyfnod adolygu cyntaf o dan adran 101(3)(a) oedd y cyfnod o 25 Chwefror 2015 i 24 Chwefror 2016. O dan adran 101(3)(b) roedd pob asesiad dilynol i'w gynnal yn ystod pob cyfnod dilynol o 5 mlynedd. Oherwydd effeithiau'r coronafeirws ar gymunedau yng Nghymru a'i effaith ar weinyddu mewn awdurdodau tai lleol mae'r cyfnod adolygu, a fyddai fel arall wedi dod i ben ar 24 Chwefror 2021, wedi ei estyn gan un flwyddyn.

Mae'r Gorchymyn hwn yn diwygio ystyr "cyfnod adolygu" yn adran 101(3) o'r Ddeddf fel bod y cyfnod adolygu sy'n dilyn y cyfnod adolygu o dan baragraff (a) wedi ei gynyddu o 5 i 6 mlynedd. Ar ôl hynny, y cyfnod adolygu yw 5 mlynedd.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Gorchymyn hwn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Gorchymyn hwn. Gellir cael copi oddi wrth yr Is-adran Cyllid Strategol Llywodraeth Leol, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ.